



Nasendosgopi: Ymchwiliad o'ch Taflod Feddal a Symudiadau'r Gwddf Wrth Lefaru

Rhwydwaith Gwefus a Thaflod HolIt Gogledd Orllewin Lloegr,
Ynys Manaw a Gogledd Cymru

Beth yw Nasendosgopi?

Ffordd o edrych ar eich tafod feddal (to'r geg) a gwddf yw Nasendosgopi. Mae'n golygu defnyddio tiwb tenau, hyblyg, â thelesgop bach iawn ar y pen, sy'n cael ei basio i mewn i un o'ch ffroenau. Bydd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn ymdopi â hyn heb anhawster. Mae'r telesgop wedi'i gysylltu âamera fideo a gall y lluniau gael eu recordio ar DVD.

Union yr un weithdrefn sy'n cael ei dilyn yn achos plant ac oedolion fel ei gilydd.

Pam fod angen Nasendosgopi arna i?

Mae'r Therapydd Iaith a Lleferydd Arbenigol wedi asesu eich lleferydd ac mae'n meddwl efallai nad yw'ch tafod feddal yn symud yn ddigon da i wahanu eich trwyn o'ch ceg wrth lefaru. Mae'r ymchwiliad yn rhoi golwg da ar beth sy'n digwydd i'ch tafod feddal a gwddf wrth i chi siarad. Bydd yn helpu'r Therapydd Iaith a Lleferydd Arbenigol a Llawfeddyg Holtt i benderfynu gyda chi beth yw'r ffordd orau o reoli eich anawsterau â lleferydd.

Beth mae cael Nasendosgopi yn ei olygu?

Byddwch yn cael eich gweld gan Therapydd Iaith a Lleferydd Arbenigol a/neu Lawfeddyg Holtt yn un o'r canolfannau holtt. Bydd yr ymchwiliad yn para oddeutu 10 i 15 munud, ond efallai y byddwch yn y ganolfan am fwy o amser na hyn os bydd asesiadau lleferydd eraill yn cael eu cynnal ar yr un pryd.

Byddwch yn effro yn ystod yr ymchwiliad a byddwch yn eistedd yn unionsyth mewn cadair. Byddwn yn chwistrellu ychydig o anaesthetig lleol i mewn i un o'ch ffroenau. Nid yw hwn yn blasu'n neis iawn ond bydd yn gwneud eich trwyn a gwddf yn ddideimlad am gyfnod byr. Ar ôl hyn, bydd tiwb yn cael ei roi i mewn i'ch ffroen.

Yna bydd gofyn i chi wneud ychydig o gyfrif a chopio seiniau, geiriau a brawddegau penodol. Ar ôl gorffen y Nasendosgopi, gallwch wyllo'r recordiad DVD o'r ymchwiliad ar sgrin teledu os dymunwch. Oherwydd y bydd eich gwddf ychydig yn ddideimlad, ni allwch fwyta neu yfed am awr ar ôl yr archwiliad, ond dylech fwyta ac yfed yn normal cyn yr archwiliad.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Pan fyddwch yn cael eich archwiliad, byddwn yn trafod y canlyniadau ac opsiynau posibl â chi/eich teulu. Bydd y canlyniadau hyn yn helpu i gynllunio unrhyw driniaeth allai fod ei hangen arnoch yn y dyfodol. Er enghraifft, efallai y bydd rhai cleifion yn cael budd o lawdriniaeth i wella symudiad eu taflod feddal a/neu helpu eu taflod a gwddf i weithio gyda'i gilydd i wahanu eu trwyn a cheg wrth lefaru.

Beth yw risgiau cael Nasendosgopi?

Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â Nasendosgopi yn fach iawn. Mae achosion anghyffredin iawn, efallai y bydd ymateb i'r anaesthetig lleol. Hefyd, efallai y bydd ychydig o waedu os bydd y tiwb yn crafu leinin mewnol eich trwyn, ond mae hyn yn anghyffredin iawn. Os bydd gennych unrhyw bryderon o ran y weithred hon, mae croeso i chi ein ffonio. Mae'r rhifau ar dudalen olaf y daflen hon.



Dyma Matthew (6 oed) yn cael ei Nasendosgopi.



Dyma'r olygfa o'r Endosgop. Mae'n dangos tafnod feddal Matthew, waliau ochr a waliau cefn ei gwddf.

Awgrymiadau/Sylwadau

Mae'r staff yma i helpu ac mae'n bwysig eu bod yn cael gwybod os bydd gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y gwasanaethau rydych wedi'u derbyn. Os dymunwch siarad ag aelod o'r tîm hollt ffoniwch ni ar:

Lerpwl: 0151 252 5209
Manceinion: 0161 701 9007
dydd Llun i ddydd Gwener 9.00 am hyd 5.00 pm.

Neu gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Cyswllt a Chyngor Cleifion (PALS):
PALS Manceinion: 0161 701 8700, dydd Llun i ddydd Gwener 9.00 am hyd 4.00 pm, e-bost childrens.pals@cmft.nhs.uk

PALS Lerpwl: 0151 252 5374/5161, dydd Llun i ddydd Gwener 9.00 am hyd 4.30 pm, e-bost PALS@alderhey.nhs.uk

Gwybodaeth a chysylltwyr allanol

Y Gymdeithas Gwefus a Thafod Hollt (CLAPA)

Llawr Cyntaf, Green Man Tower,
332b Goswell Road, Llundain EC1V 7LQ
Ffôn: 0207 833 4883 • Ffacs: 0161 701 9007
E-bost: info@clapa.com • gwefan: www.clapa.com

Changing Faces

The Squire Centre, 33-37 University Street,
Llundain, WC1E 6JN

Ffôn: 0845 4500 275 • Ffacs: 0845 4500 276
E-bost: info@changingfaces.org.uk
gwefan: www.changingfaces.org.uk

Mae'r wybodaeth hon ar gael yn Saesneg, pe baech yn dymuno hynny.

This information is available in English, if preferred.

Mae taflenni gwybodaeth am ein gwasanaeth ar gael i'w llwytho i lawr o wefannau Ysbyty Plant Alder Hey ac Ysbyty Plant Brenhinol Manceinion:

www.alderhey.com/services/cleftpalate.asp

www.cmft.nhs.uk/childrens-hospitals/our-services/cleft-lip-and-palate.aspx

© Hawlfraint Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbytai Prifysgol Canol Manceinion